



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Eluned Morgan AS/MS**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r**  
**Gymraeg**  
**Cabinet Secretary for Health, Social Care and Welsh**  
**Language**

**Dawn Bowden AS/MS**  
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol**  
**Minister for Social Care**

RPB Chairs, LA Directors of Social Services,  
LA Leaders and Chief Execs, Health Board Chairs and Chief Execs,  
Directors of Primary Care, LA Cabinet Leads for Social Care

Copied to: RPB Leads, ADSS Cymru, NHS Confed, Social Care Wales, CAC members

26 July 2024

Dear Colleagues

We wanted to first of all thank you for your ongoing commitment to working together, in partnership, across the health and social care system in order to build community capacity so that people can be supported to achieve what matters to them, to live well and stay well at home, in their communities and prevent the need for admission to hospital.

As we continue to build our Integrated Community Care System (ICCS) for Wales, which includes the important work being delivered through key programmes such as the Regional Integration Fund, the Urgent and Emergency Care 6 goals programme and the Strategic Primary Care Programme. The Care Action Committee provides us with an opportunity to amplify and accelerate those parts of the system that can be strengthened to help improve system flow and citizen experiences over the winter months.

To that end the Care Action Committee continues to provide an important space in which health and social care system leaders can meet together with Ministers to focus on collective action to improve system performance and flow across both the health and social care sectors. For your reference, the membership of the Care Action Committee is made up of the following representatives:

- Cabinet Secretary for Health, Social Care and Welsh Language, Ministers and Special Advisors
- Lead health and social care government officials
- WLGA and Local Government Leader representatives (Chris Llewelyn and Cllr Andrew Morgan)
- Directors and Heads of Social Services representatives (Lance Carver and Jason Bennett)
- Health Board Chief Executives (Paul Mears)

## **APPENDIX 1**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- NHS Confederation (Darren Hughes)
- Regional Partnership Board Chairs (Ann Lloyd)
- 6 Goals Programme Lead (Richard Bowen)
- Strategic Primary Care Programme Leads (Sue Morgan)

### Background

In 2022/23, the Care Action Committee focused on delivering against the ambition of creating an additional 1000 community beds (achieving nearly 700). While the ambition of 1000 additional beds was not fully realised, the focus on an ambitious target supported collective action and facilitated significant progress and impact. This is an approach that Ministers are keen to build on going forward.

Last winter, the CAC focused on three priorities:

**1 – Reduction in pathways of care delays due to assessment**, including increasing the role of Trusted Assessors - (181 additional TA roles/functions were introduced and there were some reductions in assessment delays but they were not consistent across Wales)

**2 - increased weekend capacity for district nursing and palliative care nursing** - (our target / trajectories are linked to delivering the National Community Nursing Specification with the aim of Weekend day capacity to be in the order of 80% of that of the average weekday day capacity and the ability to meet the national response times 7 days per week).

**3 – increased community capacity to support step up/down of support i.e ECC (formally, virtual wards, reablement, community beds)** - (specifically on to the Enhanced Community Care (ECC) component, whilst the integrity of data requires further development in order to reliably demonstrate impact, it did provide an indication that significant numbers of people were benefiting from care at home as a safe alternative to hospital admission and / or to expedite discharge).

### Resourcing

£5 million recurrent funding was made available from April 2023 to increase Allied Health Professional and support worker posts in Primary and Community services. To date, there are an additional 90 AHP posts in community services across Wales, including some in ECC services and Community Resource Teams.

In addition to this, last winter Ministers provided an additional £8.24m through the Further Faster ambition to support improvements with funds targeted at increasing community nursing hours at weekends, increasing capacity within enhanced community care and to support future care planning for our most vulnerable populations. The allocation of these resources was late in the year and as such plans for their investment were not as strongly aligned to the priorities as would have been liked.

As these funds are available recurrently (£11.95m alongside the £5m annually) we will be working more closely with partners to ensure the resources are invested in line with the intended priorities and that they support the building of community capacity to support hospital discharge and help people to live and age well at home. It is important to note that while we have managed the £11.95m Further Faster funds through Health Boards the intention remains that local cluster and regional arrangements should determine the

## **APPENDIX 1**

optimal investment of these funds, which can and should include both health and social care providers.

### Winter 2024/25

The Welsh Government is developing a 2024-25 Winter Framework which will be focused on alleviating system pressures due to respiratory viruses. It will be aimed at key settings such as health, social care and special education as opposed to the general public. It is envisaged that this Framework will be made available in September, via a Welsh Health Circular, CIW comms channels and Welsh Government Education Directorate colleagues to ensure appropriate coverage across the relevant areas. The Welsh Government's website guidance for the general public will be updated where appropriate in similar timescales.

Looking ahead to winter 2024/25, it has also been agreed that the CAC will continue to focus on the same priorities as last winter to ensure we can build from the good work already done and get closer to realising our ambition of more people being able to live and age well at home, with fewer avoidable conveyances and admissions to hospital and fewer pathways of care delays where hospitalisation was appropriate and necessary.

The Cabinet Secretary for Health, Social Care and Welsh Language and the Minister for Social Care have requested that the Care Action Committee continues to meet over the summer months to ensure we have a clear measurable improvement plan ahead of winter 2024/25 that will target and optimise flow across our health and social care system.

The June meeting of the Care Action Committee considered the progress made in winter 2023/24 and have agreed the following approach for Winter 2024/25;

### **Priorities for action in 2024/25**

- 1) Reduced pathways of care delays due to assessment** (*monitoring to be led by 6 Goals programme*)
  - a) Ambition** – to reduce Pathways of Care Delays (Total Patient Delays) by 15% by end of November 2024 and then maintain to March 25
  - b) Ambition** – to reduce the number of patients that experience a Pathways of Care Delay (POCD) due to an assessment reason code by 20% by end of Dec 2024 and then maintain to March 25
  - c) Ambition** – to reduce total Days Delayed (the number of days delayed in hospital due to POCD) by 20% by end of Dec 2024 and then maintain to March 25
  
- 2) Increased weekend district nursing and palliative care nursing hours** (*monitoring to be led by Strategic Primary Care Programme*)

**Ambition** – for Weekend day capacity to be in the order of 80% of that of the average weekday day capacity by March 2025 (to have achieved 60% by September 2024)
  
- 3) Increased count of people (at home and in care homes) benefiting from 'step up' care as safe alternative to conveyance / hospital admission and 'step down' care from hospital.** (*monitoring to be led by Strategic Primary Care Programme and National Office for Care and Support*)

**Ambition** - to increase the number of people accessing Enhanced Community Care (Level 4) by 20% by March 2025

**Ambition** - to increase the number of people accessing Reablement by 20% by March 2025

### **Monitoring impact**

Seven system outcome measures have been identified and agreed by CAC members to help us monitor impact. The seven measures as set out below will be drawn together into a data dashboard and will be routinely monitored by CAC members to understand system pressures and changes. Data will be drawn from across our system and delivery programmes including the 6 Goals Urgent and Emergency Care programmes, the Strategic Primary Care Programme and the Social Care checkpoint data.

- Monthly count of people who have benefited from Enhanced Community Care (home based and bed based) - *reported via SPPC*
- Monthly count of people who have benefited from Reablement (home based and bed based) - *reported via social care Check Point*
- Pathways of Care Delays including assessment delays – *reported via 6 Goals programme*
- Count of people in hospital with LoS > 21 days
- Admission rates > 75 years
- Count of people waiting care or reablement in hospital (*via POCD data*)
- Count of people waiting care or reablement in community (*via checkpoint data*)

**Exploration work** – work will be undertaken to complete a deep dive review of the system and further research to:

- a. Undertake analysis and modelling work to understand current and optimal demand and capacity across our health and social care system (*being led by Mike Emery with NHS Exec, WG Policy*)
- b. Explore the extent to which Regions are implementing the Primary Care Model for Wales and Enhanced Community Care (Level 3) (*to be led by Strategic Programme for Primary Care*)
- c. Explore the extent to which regions have progressed with the implementation of the Frailty Statement and how they are implementing critical components of an Integrated Community Care System for older people (*led by Professional Advisor for Frailty/Integration, WG*)
- d. Examine the extent to which D2RA is being applied across health boards and its impacts (*being led by 6 goals programme team*)

**Accountability** – there will be a strengthening of accountability and oversight across the system to ensure a joint commitment to building community capacity and improving system flow by;

- Ministers undertaking a round of virtual regional meetings over the summer months to specifically talk to Local Authority Leaders/Directors, Health Board Chairs/Directors and RPB Chairs jointly about planning and commissioning for next winter and beyond. Officials will be making contact with regions to arrange these meetings shortly.
- Establishing a Care Action Committee engagement and oversight framework that will enable officials to meet with regions regularly in order to maintain focus on progressing priority areas, monitor performance and share best practice. These arrangements will help us to test how each region is building quantifiable additional capacity in the system for next winter and also include steps for

escalation and enhanced support where engagement or performance is of concern.



- Reviewing and strengthening the Care Action Committee Membership to include seven Local Government representatives (one per region) and to clarify expectations of representatives in relation those they represent.
- By asking each region to identify one senior accountable officer who will lead the regional response to the priorities set out above and attend Care Action Committee Meetings as necessary to represent their region and discuss progress **(each region to confirm their senior accountable officer and contact details to [partnershipandintegration@gov.wales](mailto:partnershipandintegration@gov.wales) by the end of August 2024).**

Further details will follow in the early autumn about our winter framework for 2024/25 but in the meantime, I hope that this letter provides a helpful early indication of priorities and ambitions for next winter. I also hope that it will start to inform advance planning conversations between delivery partners and through RPBs/Cluster groups so that we can be in an improved position for next winter to optimise system flow, help people to stay well at home and protect our acute services for those who most need them.

Yours sincerely



**Eluned Morgan AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal  
Cymdeithasol a'r Gymraeg  
Cabinet Secretary for Health, Social Care  
and Welsh Language



**Dawn Bowden AS/MS**

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol  
Minister for Social Care



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Eluned Morgan AS/MS**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r**  
**Gymraeg**  
**Cabinet Secretary for Health, Social Care and Welsh**  
**Language**

**Dawn Bowden AS/MS**  
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol**  
**Minister for Social Care**

Cadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol, Arweinwyr yr Awdurdodau Lleol a'r Prif Weithredwyr, Cadeiryddion y Byrddau Iechyd a'r Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Arweinwyr Cabinet yr Awdurdodau Lleol dros Ofal Cymdeithasol

Copiwyd i: Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ADSS Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, aelodau'r Pwyllgor Gweithredu dros Ofal (CAC)

26 Gorffennaf 2024

Annwyl Gydweithwyr

Yn gyntaf oll, hoffem ddiolch ichi am eich ymrwymiad parhaus i weithio gyda'n gilydd, mewn partneriaeth, ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol i feithrin capasiti cymunedol fel y gellir helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, i fyw'n dda ac aros yn iach gartref, yn eu cymunedau, ac atal yr angen iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

Wrth inni barhau i sefydlu ein System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru, sy'n cynnwys y gwaith pwysig sy'n cael ei gyflawni drwy raglenni allweddol megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Mae'r Pwyllgor Gweithredu Gofal yn rhoi cyfle inni ehangu a sbarduno'r rhannau hynny o'r system y gellir eu cryfhau er mwyn helpu i wella llif y system a phrofiadau dinasyddion dros fisoedd y gaef.

Mae'r Pwyllgor Gweithredu Gofal felly'n parhau i ddarparu man pwysig lle gall arweinwyr y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfarfod â Gweinidogion i ganolbwyntio ar gamau gweithredu ar y cyd i wella perfformiad a llif y system ar draws y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol. Er gwybodaeth ichi, mae aelodaeth y Pwyllgor Gweithredu Gofal yn cynnwys y cynrychiolwyr a ganlyn;

- Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Gymraeg, Gweinidogion a Chynghorwyr Arbennig

## **APPENDIX 1**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Swyddogion arweiniol y llywodraeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynrychiolwyr CLILC ac Arweinwyr Llywodraeth Leol (Chris Llewelyn a'r Cynghorydd Andrew Morgan)
- Cynrychiolwyr Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol (Lance Carver a Jason Bennett)
- Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd (Paul Mears)
- Conffederasiwn GIG Cymru (Darren Hughes)
- Cadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (Ann Lloyd)
- Arweinydd y Rhaglen Chwe Nod (Richard Bowen)
- Arweinwyr y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (Sue Morgan)

### Y cefndir

Yn ystod 2022/23, canolbwyntiodd y Pwyllgor Gweithredu Gofal ar gyflawni'r uchelgais o greu 1000 o welyau cymunedol ychwanegol (gan gyflawni bron i 700). Er na chafodd yr uchelgais o 1000 o welyau ychwanegol ei wireddu'n llawn, gwnaeth y canolbwyntio ar darged uchelgeisiol helpu i gydweithio a hwyluso cynnydd ac effaith sylweddol. Mae hwn yn ddull gweithredu y mae Gweinidogion yn awyddus i'w ddatblygu o hyn ymlaen.

Y gaeaf diwethaf, canolbwyntiodd y Pwyllgor Gweithredu Gofal ar dair blaenoriaeth;

1 – ***Lleihau oedi yn achos llwybrau gofal oherwydd asesiadau***, gan gynnwys cynyddu rôl Aseswyr Dibynadwy - (cyflwynwyd 181 o rolau/swyddogaethau Aseswyr Dibynadwy ychwanegol a gwelwyd ychydig yn llai o oedi o ran asesu ond nid oedd hyn yn gyson ledled Cymru)

2 - ***Cynyddu capasiti nyrsys ardal a nyrsys gofal lliniarol ar benwythnosau*** - (mae ein targed / rhagolygon yn gysylltiedig â chyflawni'r Fanyleb Genedlaethol ar gyfer Nyrsio Cymunedol gan geisio sicrhau bod capasiti diwrnod ar benwythnos tua 80% o gapasiti cyfartalog diwrnod yr wythnos, a'r gallu i gyflawni'r amseroedd ymateb cenedlaethol 7 diwrnod yr wythnos).

3 – ***Cynyddu capasiti cymunedol i annog cymorth cam-i-fyny / cam-i-lawr, hynny yw, Gofal Cymunedol Estynedig (yn ffurfiol, wardiau rhithwir, ailalluogi, gwelyau cymunedol)*** - (yn benodol ar gyfer yr elfen Gofal Cymunedol Estynedig, ac er bod angen datblygu cywirdeb y data ymhellach er mwyn dangos yr effeithiau yn ddibynadwy, mae'r data wedi dangos bod nifer sylweddol o bobl yn elwa ar ofal gartref fel opsiwn diogel amgen yn lle cael eu derbyn i'r ysbyty a / neu eu rhyddhau yn gyflym).

### Darparu Adnoddau

Ers mis Ebrill 2023, mae cyllid rheolaidd gwerth £5 miliwn wedi'i ddarparu i gynyddu nifer y swyddi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a gweithwyr cymorth o fewn gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Hyd yma, mae 90 o swyddi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd ychwanegol o fewn gwasanaethau cymunedol ledled Cymru, gan gynnwys rhai mewn gwasanaethau Gofal Cymunedol Estynedig a Thimau Adnoddau Cymunedol.

Yn ogystal â hyn, y gaeaf diwethaf, rhoddodd Gweinidogion £8.24 miliwn yn ychwanegol drwy'r uchelgais Ymhellach, yn Gyflymach i annog gwelliannau gyda chyllid wedi'i dargedu ar gyfer cynyddu oriau nyrsio cymunedol ar benwythnosau, cynyddu capasiti ym maes

## **APPENDIX 1**

gofal cymunedol estynedig a helpu'r gwaith o gynllunio gofal yn y dyfodol ar gyfer ein poblogaethau mwyaf agored i niwed. Cafodd yr adnoddau hyn eu dyrannu'n hwyr yn y

flwyddyn ac, o ganlyniad, nid oedd y cynlluniau ar gyfer eu buddsoddi yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau mor gadarn ag y byddem wedi ei ddymuno.

Gan fod y cyllid hwn ar gael yn rheolaidd (£11.95 miliwn ochr yn ochr â'r £5 miliwn yn flynyddol), byddwn yn gweithio'n agosach gyda phartneriaid i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu buddsoddi yn unol â'r blaenoriaethau a fwriedir a'u bod yn annog meithrin capasiti cymunedol i gynnal y gwaith o ryddhau cleifion o'r ysbyty a helpu pobl i fyw a heneiddio'n dda gartref. Er ein bod wedi sicrhau'r cyllid Ymhellach, yn Gyflymach gwerth £11.95 miliwn drwy'r Byrddau Iechyd, mae'n bwysig nodi mai'r bwriad o hyd yw y dylai trefniadau clystyrau lleol a rhanbarthol bennu'r buddsoddiad gorau posibl o'r cyllid hwn, a all gynnwys ac a ddylai gynnwys darparwyr iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol.

### Gaeaf 2024/25

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Gaeaf 2024-25 a fydd yn canolbwyntio ar leddfau pwysau ar y system yn sgil feirysau anadlol. Bydd wedi'i anelu at leoliadau allweddol megis iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg arbennig yn hytrach nag at y cyhoedd. Rhagwelir y bydd y Fframwaith hwn ar gael ym mis Medi, drwy gyfrwng Cylchlythyr Iechyd Cymru, sianeli cyfathrebu AGC a chydweithwyr yng Nghyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rannu'n ddigon eang yn y meysydd perthnasol. Bydd canllawiau i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddarau pan fo hynny'n briodol o fewn amserlenni tebyg.

Gan edrych tuag at y gaeaf yn 2024/25, cytunwyd hefyd y bydd y Pwyllgor Gweithredu Gofal yn parhau i ganolbwyntio ar yr un blaenoriaethau â'r gaeaf diwethaf. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn gallu adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi'i gyflawni ac agosáu at wireddu ein huchelgais o gael rhagor o bobl yn byw a heneiddio'n dda gartref, gyda llai o achosion y gellir eu hosgoi o ran cludo a derbyn cleifion i'r ysbyty, yn ogystal â llai o achosion o oedi yn achos llwybrau gofal pan fo mynd i'r ysbyty yn briodol ac yn angenrheidiol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol wedi gofyn i'r Pwyllgor Gweithredu Gofal barhau i gyfarfod dros fisoedd yr haf i sicrhau bod gennym gynllun gwella mesuradwy a chlir cyn gaeaf 2024/25 a fydd yn targedu llif y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan ac yn ei wneud mor effeithiol â phosibl.

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Gweithredu Gofal a gynhaliwyd fis Mehefin, ystyriwyd y cynnydd a wnaed yn ystod y gaeaf yn 2023/24 a chytunwyd ar y dull gweithredu a ganlyn ar gyfer gaeaf 2024/25;

### **Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn 2024/25**

- 1) Lleihau oedi yn achos llwybrau gofal oherwydd asesiadau** (*y gwaith monitro i'w arwain gan y rhaglen Chwe Nod*)
  - a) Uchelgais** – Lleihau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal (cyfanswm Oedi yn achos Llwybrau Cleifion) 15% erbyn diwedd mis Tachwedd 2024 a chynnal y lefel hon tan fis Mawrth 2025
  - b) Uchelgais** – Lleihau nifer y cleifion sy'n profi Oedi yn Achos Llwybrau Gofal yn sgil cod rheswm asesiadau 20% erbyn diwedd mis Rhagfyr 2024 a chynnal y lefel hon tan fis Mawrth 2025

c) **Uchelgais** – lleihau cyfanswm y Diwrnodau o Oedi (nifer y diwrnodau o oedi cyn y gellir rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn sgil Oedi yn Achos Llwybrau Gofal) 20% erbyn diwedd mis Rhagfyr 2024 a chynnal y lefel hon tan fis Mawrth 2025

**2) Cynyddu oriau nyrsys ardal a nyrsys gofal lliniarol ar benwythnosau**  
(y gwaith monitro i'w arwain gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol)

**Uchelgais** – bod capasiti diwrnod ar benwythnos tua 80% o gapasiti cyfartalog diwrnod yr wythnos erbyn mis Mawrth 2025 (gan gyflawni 60% erbyn mis Medi 2024)

**3) Cynnydd yn nifer y bobl (yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal) sy'n elwa ar ofal 'camu-i-fyny' fel opsiwn diogel amgen yn lle cael eu cludo / derbyn i'r ysbyty a gofal 'camu-i-lawr' o'r ysbyty.** (y gwaith monitro i'w arwain gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth)

**Uchelgais** - cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar Ofal Cymunedol Estynedig (Lefel 4) 20% erbyn mis Mawrth 2025

**Uchelgais** - cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar ddarpariaeth Ailalluogi 20% erbyn mis Mawrth 2025

### **Monitro effaith**

Mae saith mesur i fesur canlyniadau'r system wedi'u nodi a chytuno arnynt gan aelodau o'r Pwyllgor Gweithredu Gofal er mwyn ein helpu ni i fonitro effaith. Bydd y saith mesur fel yr amlinellir isod yn cael eu crynhoi i ddangosfwrdd data a byddant yn cael eu monitro'n rheolaidd gan aelodau o'r Pwyllgor Gweithredu Gofal er mwyn deall pwysau ar y system a newidiadau ynddi. Bydd data'n cael ei gasglu o bob rhan o'n system a'n rhaglenni cyflawni, gan gynnwys y rhaglenni Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a data'r adroddiadau cadarnhau ym maes Gofal Cymdeithasol.

- Nifer y bobl bob mis sydd wedi elwa ar Ofal Cymunedol Estynedig (yn eu cartrefi ac mewn cyfleuster seiliedig ar welyau) - *adroddir ar hyn drwy'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol*
- Nifer y bobl bob mis sydd wedi elwa ar ddarpariaeth Ailalluogi (yn eu cartrefi ac mewn cyfleuster seiliedig ar welyau) - *adroddir ar hyn drwy'r adroddiadau cadarnhau ym maes gofal cymdeithasol*
- Oedi yn Achos Llwybrau Gofal, gan gynnwys oedi wrth asesu – *adroddir ar hyn drwy'r rhaglen Chwe Nod*
- Nifer y bobl yn yr ysbyty sydd â hyd arosiadau > 21 o ddiwrnodau
- Cyfraddau derbyn i'r ysbyty > 75 oed
- Nifer y bobl sy'n aros am ofal neu ddarpariaeth ailalluogi yn yr ysbyty (*adroddir ar hyn drwy ddata Oedi yn Achos Llwybrau Gofal*)
- Nifer y bobl sy'n aros am ofal neu ddarpariaeth ailalluogi yn y gymuned (*adroddir ar hyn drwy ddata'r adroddiadau cadarnhau*)

**Gwaith archwilio** – bydd gwaith yn cael ei gynnal i gwblhau adolygiad manwl o'r system a chynnal ymchwil bellach er mwyn;

- a. Cynnal gwaith dadansoddi a modelu i ddeall y galw a'r capasiti presennol a'r mwyaf ffafriol ar draws ein system iechyd a gofal cymdeithasol (*caiff ei arwain gan Mike Emery ar y cyd â Gweithrediaeth y GIG, Polisi Llywodraeth Cymru*)
- b. Archwilio i ba raddau y mae rhanbarthau'n gweithredu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru a Gofal Cymunedol Estynedig (Lefel 3) (*i'w arwain gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol*)
- c. Archwilio i ba raddau y mae rhanbarthau wedi mynd ati i weithredu'r Datganiad Eiddilwch a sut maent yn gweithredu cydrannau hanfodol System Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer pobl hŷn (*o dan arweiniad Cyngorydd Proffesiynol ar gyfer Eiddilwch / Integreiddio, Llywodraeth Cymru*)
- d. Archwilio i ba raddau y mae'r weithdrefn rhyddhau i adfer yna asesu yn cael ei rhoi ar waith ar draws byrddau iechyd a'i heffeithiau (*arweinir y gwaith gan dîm rhaglen y Chwe Nod*)

**Atebolrwydd** – bydd gweithdrefnau atebolrwydd a goruchwyliaeth yn cael eu cryfhau ar draws y system er mwyn sicrhau ymrwymiad ar y cyd i feithrin capasiti cymunedol a gwella llif y system drwy'r gwaith a ganlyn;

- Bydd Gweinidogion yn cynnal cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol rhithwir dros fisoedd yr haf i gyd-drafod yn benodol ag Arweinwyr/Cyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol, Cadeiryddion/Cyfarwyddwyr Byrddau Iechyd a Chadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynglŷn â chynllunio a chomisiynu ar gyfer y gaeaf nesaf a thu hwnt. Bydd swyddogion yn cysylltu â rhanbarthau i drefnu'r cyfarfodydd hyn yn fuan.
- Sefydlu fframwaith ymgysylltu a goruchwyllo'r Pwyllgor Gweithredu Gofal a fydd yn galluogi swyddogion i gyfarfod â rhanbarthau yn rheolaidd er mwyn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu meysydd blaenoriaeth, monitro perfformiad a rhannu arferion gorau. Bydd y trefniadau hyn yn ein helpu i brofi sut y mae pob rhanbarth yn meithrin capasiti ychwanegol mesuradwy yn y system ar gyfer y gaeaf nesaf. Byddant hefyd yn cynnwys camau ar gyfer uwchgyfeirio a chymorth estynedig pan fo gweithdrefnau ymgysylltu neu berfformiad yn destun pryder.
- Adolygu a chryfhau Aelodaeth y Pwyllgor Gweithredu Gofal i gynnwys saith cynrychiolydd o Lywodraeth Leol (un o bob rhanbarth) ac egluro disgwyliadau cynrychiolwyr mewn perthynas â'r rhai y maent yn eu cynrychioli.
- Gofyn i bob rhanbarth nodi un wch-swyddog atebol a fydd yn arwain ar yr ymateb rhanbarthol i'r blaenoriaethau a amlinellir uchod. Byddant hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu Gofal yn ôl yr angen i gynrychioli eu rhanbarth a thrafod cynnydd (**gofynnir i bob rhanbarth gadarnhau ac anfon enw a manylion cyswilt ei uwch-swyddog atebol i [partneriaethauacintegreiddio@llyw.cymru](mailto:partneriaethauacintegreiddio@llyw.cymru) erbyn diwedd mis Awst 2024**).

Bydd rhagor o fanylion am ein fframwaith gaeaf 2024/25 yn cael eu rhannu yn gynnar yn yr hydref, ond yn y cyfamser, gobeithiaf fod y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth amserol a defnyddiol ynghylch y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau ar gyfer y gaeaf nesaf. Gobeithiaf hefyd y bydd yn fodd i ddechrau llywio trafodaethau cynllunio gofal ymlaen llaw rhwng



## **APPENDIX 1**

partneriaid cyflawni a chyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol / grwpiau Clwstwr fel y gallwn fod mewn gwell sefyllfa ar gyfer y gaeaf nesaf i sicrhau bod llif y system mor effeithiol

â phosibl, helpu pobl i aros yn iach gartref a diogelu ein gwasanaethau aciwt i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Gofal  
Cymdeithasol a'r Gymraeg  
Cabinet Secretary for Health, Social Care  
and Welsh Language



**Dawn Bowden AS/MS**

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol  
Minister for Social Care